

# FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



**CYFARFOD Y CYNGOR**  
**DYDD IAU, 21 IONAWR 2021**  
**'ZOOM'**  
**7.00YH**

## COFNODION

---

**CADEIRYDD:** Miss Katie Davies

**VICE CHAIRMAN:** Miss Caryl Haf

**PRESENNOL:** Katie Davies (Cadeirydd y Cyngor); Caryl Haf (Is-gadeirydd y Cyngor); Katie Court (Cadeirydd Cystadlaethau); Kathryn Jones (Cadeirydd Cyllid a Rheoli); Niall Evans (Cadeirydd Rhynhwladol); Aled Thomas (Cadeirydd Digwyddiadau a Marchnata); Clare James (Cadeirydd Materion Gwledig); Elin Rattray (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid); Emma Rees, Rebecca Prothero a Carwyn Pugh (Brycheiniog); Iestyn Owen a Hefin Evans (Sir Gâr); Esyllt Ellis Jones, Eiliw Dafydd ac Elin Calan Jones (Ceredigion); Megan Jones a Gwenno Davies (Clwyd); Beca Glyn, Gwen Thomas a Meinir Owen (Eryri); Kate Thomas, Andrew Joseph a Michael Burley (Morgannwg); Abbie Williams Katie Matthews a Nerys Lewis (Gwent); Manon Williams ac Anna Prysor Jones (Meirionnydd); Bryony Wilson, Aled Rees a Sioned Morris (Maldwyn); Tania Hancock, Delun Evans a Samuel Kurtz (Sir Benfro); Matt Price a John James (Maesyfed); Rhys Richards Fflur Powell-Roberts ac Eiliw Haf Griffith (Ynys Môn); Iwan Meirion, Dafydd Jones, Kate Miles, Rhodri Evans, Mared Jones a Jayne Jones (Cyfetholedig); Dewi Parry ac Ed Dungait (FfCCFFI).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Nia Lloyd (Cyfarwyddwr CFFI Cymru); Teleri Thomas (Swyddog Marchnata a Chyfathrebu); Catrin James (Swyddog Datblygu'r Gymraeg); Edna Jones (Cadeirydd Cymdeithas y Staff) a Hefin Jones (Cyfieithydd).

**C/25/2021**

### **CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Wrth agor y cyfarfod, fe wnaeth Katie Davies groesau'r holl aelodau i gyfarfod cyntaf y Cyngor yn 2021. Hysbyswyd y cynrychiolwyr y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion ysgrifennu'r cofnodion a bod Hefin Jones yn bresennol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu, a chynigiwyd cyfle i brofi'r system i'r sawl oedd yn defnyddio'r cyfleuster.0} Unwaith yn rhagor, byddai Vevox yn cael ei ddefnyddio at ddibenion pleidleisio, a hysbyswyd fod y ddolen ar gael ar y wefan.

Rhannwyd calendr ag aelodau'r Cyngor, yn cynnwys manylion cyfarfodydd a fynychwyd gan y cadeirydd, yr is-gadeirydd a'r cyfarwyddwr ers y cyfarfod diwethaf.

Cydnabuwyd y canlynol:

- Diolch i Huw George o Sir Benfro am gynorthwyo â Drama'r Geni rithwir CFFI Cymru, ynghyd â'r holl ffederasiynau, swyddogion a staff a gyfrannodd eu hamser.
- Cafwyd cyfraniad o £500 gan sefydliad T Tecwyn Lloyd.

- Cafwyd cadarnhad yn gynharach yn y prynhawn y byddai'r sefydliad yn cael cyllid gwerth £132.997 gan y gronfa Adferiad Diwylliannol. Byddai dogfennaeth ynghylch y gronfa yn cael ei anfon at y sefydliad yn ystod y diwrnodau dilynol.
- Cafwyd cyfarfod gyda Kirsty Williams AC yn ystod yr wythnos flaenorol, a bu'n gynhyrchiol iawn.
- Hysbyswyd yr holl gynrychiolwyr am arolwg 'Big Farming' RABI ac anodwyd pawb i ymateb.
- Anogwyd yr aelodau hefyd i gyfranogi ym mrecwast blynyddol UAC unwaith eto eleni.
- Diolchwyd i bawb oedd wedi cyfranogi yn Run1000 am eu cefnogaeth.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Sefydliad y Merched ynghylch ymgyrch Band Llydan yng nghefn gwlad.
- Roedd calendrau CFFI Cymru wedi gwneud elw o £1,515.56, a dim ond 9 o'r cyfanswm o 200 oedd heb eu gwerthu.

Nodwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau dilynol gyda swyddfa Lesley Griffith, ynghyd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Anfonwyd ceisiadau am gyfarfodydd hefyd at Elin Jones, AS, Yr Arglwydd Dafydd Ellis Thomas AS, Adam Price AS, Llŷr Huws Gruffydd AS, Helen Mary Jones AS, Y Fonesig Eluned Morgan AS, Russell George AS a Chomisiynydd y Gymraeg.

Nodwyd fod y Comisiynydd Plant wedi lleihau nifer y cyfarfodydd nad ydynt yn faterion brys oherwydd Coronafeirws.

**C/26/2021**

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Bleddyn Davies (Ceredigion); Elen Williams (Morgannwg); Alastair Morgan (Gwent); Carys Thomas (Sir Gâr) a Vicky Williams (Cyfetholedig).

**C/27/2021**

**DATGAN BUDDIANT**

Atgoffwyd aelodau'r pwyllgor am yr angen i ddatgan unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn unrhyw fusnes sy'n cael ei drafod.

**C/28/2021**

**COFNODION**

Ar ôl rhoi copi i bawb o gofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2020, cadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir, ar ôl cadarnhau newid i nodi presenoldeb Siân Healey yn y cyfarfod.

**Cynigydd:** Katie Court, Morgannwg

**Eilydd:** Elyllt Ellis Jones, Ceredigion

**C/29/2021**

**PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**C/30/2021**

**GOHEBIAETH**

Nid oedd unrhyw ohebiaeth at sylw'r Cyngor.

**DERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU:**

**a) Cystadlaethau – Katie Court**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Cymeradwyodd y pwyllgor fersiwn terfynol rhaglen yr Eisteddfod rithwir, sydd bellach wedi cael ei hanfon at y ffederasiynau sirol.
2. Gofynnwyd i'r pwyllgor awgrymu beirniaid addas ar gyfer yr Eisteddfod.
3. Trafododd y pwyllgor gystadlaethau addas ar gyfer y Siarad Cyhoeddus rhithwir a'r Penwythnos Cystadlaethau.
4. Nodwyd y byddai'r cyfarfod cystadlaethau nesaf yn cael ei gynnal ar 16 Chwefror 2021.

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

1. Bydd yr Eisteddfod rithwir yn cael ei rhyddhau ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol CFFI Cymru ar 29, 30 a 31 Mawrth 2021, yn cynnwys Facebook, Instagram, gwefan CFFI Cymru, YouTube ac AM. Cadarnhawyd mai 8 Mawrth 2021 yw dyddiad cau'r ceisiadau.
2. Siarad Cyhoeddus Rhithwir – 24 a 25 Ebrill 2021.
3. Penwythnos cystadlaethau – 3 a 4 Gorffennaf 2021.

**Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:**

Cafwyd cadarnhad ynghylch y gystadleuaeth Ensemble Lleisiol, a nodwyd y dylai grwpiau gynnwys pedwar llais ac uchafswm o aelodau.

Mynegodd CFFI Cymru eu pryder ynghylch cystadleuaeth y limrig, a chytunwyd i ailystyried fersiwn Gymraeg y gystadleuaeth.

Cafwyd cadarnhad hefyd ynghylch y penwythnos cystadlaethau a sut roedd yr is-bwyllgor yn bwriadu rhedeg y digwyddiad.

**b) Cyllid a Rheoli – Kathryn Jones**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Fe wnaeth y rheolwr cyllid a gweinyddu gyflwyno adroddiad i ddiweddarau'r pwyllgor ynghylch sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad.
2. Diweddarwyd y pwyllgor am y grantiau yr ymgeisiwyd amdanynt yn ddiweddar, gan gynnwys Grant Ardrethi Cyngor Powys, a Grant Penodol i'r Sector gyda Llywodraeth Cymru. Roedd CFFI Cymru wedi ymgeisio'n llwyddiannus am £5,000 i ariannu system newydd Office 365 gan Sefydliad Moondance. Roedd y sefydliad hefyd wedi llwyddo â'i gais i'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, ond ar y pryd, nid oedd cadarnhad ysgrifenedig o'r union swm a ddyfarnwyd wedi cael ei dderbyn.
3. Nodwyd fod £114,197.08 wedi cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.
4. Rhoddwyd taliadau i'r Ffederasiynau Sirol am chwarter 2 Grant y Gymraeg a'r Fenter Cig Oen.
5. Mae gwaith yn mynd rhagddo ynghylch nawdd a chynigion i'r aelodau sydd wedi cychwyn cael eu rhyddhau'r mis hwn. Roedd y rhain yn cynnwys cymhellion gyda Grubbs a Hayley Hanson.
6. Cafwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr i ddiweddarau'r pwyllgor am gyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gyda phartneriaid posibl eraill, y Rhaglen Ryngwladol a gwaith beunyddiol cyffredinol y sefydliad.
7. Mynegwyd pryder ynghylch y nifer sy'n dod yn aelodau.

### **Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

Nid oedd unrhyw bwyntiau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

### **Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:**

Cafwyd cwestiwn gan Hefin Evans o Sir Gâr mewn perthynas â'r cyllid a gafwyd a sut byddai'n cael ei ddefnyddio. Nodwyd nad oedd cadarnhad terfynol wedi cael ei dderbyn, ond roedd y cais wedi cynnwys arian i dalu cyflogau a chostau rhedeg, ynghyd â phrosiectau a fyddai'n cynorthwyo'r ffederasiwn yn y dyfodol.

### **c) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas**

#### **Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Mae cysylltiadau a phartneriaethau cyfryngau newydd gyda Radio Cymru a Country Focus wedi cael eu sefydlu. Mae Caryl Haf wedi bod yn rhan o "Munud i Feddwl" trwy gydol mis Ionawr – bydd y nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher (27.01). Mae aelodau allweddol hefyd wedi cyfranogi yn sioe Country Focus, er enghraifft, Ethan Williams, Enillydd y Fwrsariaeth Amaethyddol.
2. Mae CFFI Cymru ar y cyd â Chynyrchiadau Carlam wedi anfon cais i greu rhaglen at Radio Cymru. Ers y cyfarfod, rydym ni wedi cael gwybod fod ein cais wedi llwyddo.
3. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r Ffederasiynau Sirol a'r Swyddogion am hyrwyddo a gwerthu Calendrau CFFI Cymru.
4. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng CFFI Cymru, Hansh a Llenyddiaeth Cymru, ynghylch cyfleoedd am bartneriaethau yn y dyfodol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cyfle i gydweithio i ddatblygu Eisteddfod Rithwir y Ffederasiwn yn 2021.
5. Mae'r pwyllgor wedi sefydlu clwb llyfrau, a bydd cyfarfodydd yn cychwyn yn y dyfodol agos. Ers y cyfarfod, mae llyfrau wedi'u hanfon at aelodau, a bydd y cyfarfodydd cyntaf yn cael eu cynnal wythnos nesaf.
6. Rydym ni wedi cychwyn rhyddhau manylion cymhellion i'r aelodau ar draws blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Bydd manylion dau gymhelliant yn cael eu rhyddhau bob mis.
7. Mae gwaith mewn perthynas â'r podlediad yn mynd rhagddo.
8. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am fwy o gysondeb o ran postiadau rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol a'r wefan.
9. Bydd CFFI Cymru yn parhau i ddiweddarau'r wefan mewn perthynas â chanllawiau diweddaraf Covid-19.

### **Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

Nid oedd unrhyw bwyntiau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

### **d) Rhyngwladol – Niall Evans**

#### **Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Bydd yr is-bwyllgor yn parhau i ddwyn sylw at y cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael trwy law CFFI Cymru trwy gyfrwng 'Dydd Iau Atgofion'.
2. Bydd aelodau ar y cyd â swyddogion YFA yn ystyried sut i ymgysylltu â'i gilydd yn fwy effeithiol.

3. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i YFA Cymru am gyfraniad i gynorthwyo i gynnal rhaglen teithio CFFI Cymru.
4. Ystyriodd yr aelodau lesiant aelodau a byddir yn cynnig dulliau cymorth i'r holl bobl ifanc sy'n rhan o'r rhaglen teithio yn ystod y cyfnod anodd hwn.
5. Bydd y pwyllgor yn monitro penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio parhau i fod yn rhan o Erasmus, mewn perthynas â'r sefydliad yn cynnal seminar Hydref 2022 Rural Youth Europe. Gwneir penderfyniad ar ôl cadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â chyfleoedd i gael cyllid.
6. Mae YFCU (Ulster) a JFAO (Cymdeithas Ffermwyr Iau Ontario) wedi gohebu at CFFI Cymru yn cadarnhau eu bod wedi canslo holl gyfleoedd teithio 2021 oherwydd y pandemig presennol.

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

1. Yn sgil y ffaith fod sefyllfa pandemig Covid-19 wedi gwaethygu ers y diwrnod dethol a'r sefyllfa newidiol mewn perthynas â mathau o'r feirws, penderfynodd y pwyllgor yn unfrydol ond yn groes i'r graen i ganslo Rhaglen Ryngwladol Cymri 2021 (teithwyr ac ymwelwyr) i ddiogelu'r holl bobl ifanc a theluedd sy'n rhan o'r rhaglen.
2. Bydd unrhyw gyfleoedd teithio, pan fo hynny'n bosibl, yn cael eu cynnig unwaith eto i aelodau pan fydd hi'n ddiogel i deithio.

**Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:**

Gofynnodd Kate Miles, un o'r aelodau etholedig, beth oedd barn yr YFA ac a oedd yr is-bwyllgor yn gweithio gyda'r sefydliad. Nodwyd fod cynrychiolydd yr YFA wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor a chafwyd trafodaeth gadarnhaol ynghylch sut gallai'r ddau sefydliad gydweithio'n agosach.

Roedd y pwyllgor yn unfrydol yn eu penderfyniad i ganslo cyfleoedd teithio nes byddai'n ddiogel i deithio unwaith eto.

**e) Materion Gwledig – Clare James**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Cynhelir y gynhadledd Materion Gwledig ar nosweithiau Llun a Mercher yr wythnos yn cychwyn 26 Ebrill. CCF yw noddwyr y digwyddiad, ac yn unol â'u cais, byddwn yn cynnal dau weminar byw, a chaiff recordiadau o'r gynhadledd eu rhannu'n ddiweddarach.
2. Cawsom ni siaradwr gwadd o gwmni Dunbia yn ein cyfarfod diweddar, ynghylch y Fenter Cig Oen, a byddwn yn cynnal ymchwil ar draws y siroedd i ddeall beth mae ffermwyr ifanc yn dymuno'i gael o'r cynllun.
3. Mae'r fideos ffocws ffermio bellach ar y gweill, a bydd un yn cael ei ryddhau bod yn ail wythnos trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol hyd at ddiwedd Ebrill.

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

1. Cynnal ymgyrch fechan yn amlygu pryderon yn ymwneud â chŵn yn poeni da byw.
2. Cydweithio ag enillydd cystadleuaeth Beic Cwad Cymru i gynnal ymgyrch fer ynghylch Dwyn o Ffermydd.

3. Ymateb ar ran CFFI Cymru i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaeth (Cymru), a cheisio cyngor gan arbenigwyr i wneud hynny a chyfarfod gyda Llywodraeth Cymru wedi hynny.
4. Ymateb i ymgynghoriad Defra ynghylch lles anifeiliaid sy'n cael eu cludo, mewn perthynas â thymereddau anifeiliaid tra byddant yn cael eu cludo.

**Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:**

Cytunodd aelodau'r Cyngor y byddai'r ddefnyddiol pe rhoddid caniatâd i'r is-bwyllgor i ymateb i ymgynghoriadau yn ôl y galw, yn hytrach na gorfod gofyn am ganiatâd y Cyngor i ymateb i bob papur a gyhoeddir.

**f) Fforwm Ieuenctid – Elin Rattray**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Ym mis Rhagfyr, cawsom ni noson ddifyr yng nghwmni Esyllt Jones yn addurno boncyffion Nadolig.

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

Nid oedd unrhyw bwyntiau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

**Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:**

Fe wnaeth Cadeirydd y Cyngor nodi hefyd fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda CFFI yr Alban i drafod sut i sefydlu Fforwm Ieuenctid.

**g) Gweithgor yr Adeilad – Dafydd Jones**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Mae'r is-bwyllgor yn parhau i gydweithio ag Aled Jones mewn perthynas â Chanolfan CFFI.
2. Byddir yn ystyried ychydig o newidiadau bychan i friff y penseiri yn dilyn y trafodaethau.  
Hysbyswyd y Cyngor fod y sefydliad wedi derbyn grant gwerth £37,000 gan gronfa Datblygiadau Cyfalaf Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Diolchwyd i Dr. Liz Bickerton a Nia Lloyd am eu gwaith mewn perthynas â'r cais.
3. Nodwyd nad oedd yr arian oedd ym meddiant Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi cael eu trosglwyddo, oherwydd problemau â'r banc.

**Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:**

Nid oedd unrhyw bwyntiau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

**h) Pwyllgor Staffio – Caryl Haf**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

1. Hysbyswyd Aelodau'r Cyngor y byddai aelodau staff cymwys CFFI Cymru yn rhan o rota ffyrlo hyblyg o ddechrau'r wythnos ddilynol.
2. Byddai absenoldeb mamolaeth Claire Price yn cychwyn ar ddechrau Ebrill a byddai manylion ei swydd ar gael ym mis Chwefror.

**i) Is-grŵp Polisiâu - Katie Davies**

**Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:**

Dyweddodd Katie Davies fod yr is-grŵp newydd wedi cychwyn cynnal cyfarfodydd ac roedd yn gwneud gwaith ar ran y Cyngor.

Mabwysiadwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau gan yr aelodau oedd yn bresennol.

**Cynigydd:** Kate Thomas, Morgannwg

**Eilydd:** Niall Evans, Cadeirydd Rhyngwladol

## **C/32/2021**

### **FfCCFFI**

#### 1. Diweddariad gan FfCCFFI

Cafwyd adroddiad gan Dewi Parry, Cadeirydd FfCCFFI, ynghylch y pwyntiau dilynol mewn perthynas â gwaith FfCCFFI.

- Roedd dau aelod newydd o staff wedi cychwyn yn eu swyddi gyda FfCCFFI ac anodwyd yr aelodau i'w croesawu'n gynnes i'r sefydliad.
- Byddai CCB grwpiau llywio FfCCFFI yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos ddilynol.
- Yng nghyfarfod nesaf FfCCFFI, byddai etholiadau'r Cyngor yn cael eu cynnal i ddewis cadeirydd ac is-gadeirydd, ac anogwyd yr holl siroedd i fynychu. Cytunwyd i anfon manylion yr aelodau sy'n sefyll yn yr etholiadau at yr holl ffederasiynau sirol.  
Cytunodd Aelodau'r Cyngor y dylai pleidlais Katie Davies fel cadeirydd CFFI Cymru gael ei hystyried ar y cyd â'i thîm swyddogion.
- Byddai cyfarfod o Fwrdd Rheoli FfCCFFI yn cael ei gynnal ar yr un pryd â chyfarfod y Cyngor, a dywedodd Dewi fod penderfyniad newydd gael ei wneud i ad-dalu cyfraniadau aelodaeth y flwyddyn aelodaeth hon, a byddai pob aelod yn talu ffioedd llai. Byddai rhagor o fanylion ar gael maes o law.

Dyweddodd Esyllt Ellis Jones ei bod hi'n syndod clywed y newyddion hyn, ond ei bod hi'n dda clywed fod FfCCFFI wedi ystyried y sefyllfa bresennol sy'n wynebu pob ffederasiwn. Holodd Mared Jones sut byddai'r ad-daliad yn gweithio yn y tymor canol, a holodd Kate Miles a oedd y neges wedi cael ei chyfleu wrth y ffederasiynau sirol.

Dyweddodd Dewi nad oedd unrhyw ohebiaeth wedi cael ei anfon at y ffederasiynau sirol, oherwydd roedd y penderfyniad newydd gael ei wneud.

Ystyriwyd hefyd sut byddai'r penderfyniad hwn yn effeithio ar CFFI Cymru, a nodwyd y byddai'n lleihau ffi'r cyfraniad 50% sy'n cael ei ddychwelyd i CFFI Cymru.

Wrth gloi ei adroddiad, diolchodd Dewi i bawb am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel cadeirydd a dywedodd Katie Davies ei bod hi wedi bod yn bleser cael cydweithio â Dewi a chael cadeirydd o Gymru yn arwain y sefydliad cenedlaethol.

#### 2. Ethol cynrychiolwyr ar bwyllgorau FfCCFFI

Etholwyd cynrychiolwyr canlynol y Ffederasiynau Sirol i fod yn aelodau o grwpiau llywio FfCCFFI dros y deuddeg mis dilynol.

### **Grŵp Llywio AGRI**

1. Aled Thomas
2. Hefin Evans

### **Cystadlaethau**

1. Kate Thomas
2. Esyllt Ellis Jones

### **Grŵp Llywio Aelodaeth a Marchnata**

1. Abbie Williams
2. Bryony Wilson

### **Datblygiad Personol**

1. Manon Williams
2. Dewi Parry

### **Fforwm Ieuencid**

1. Elin Rattray

## **C/33/2021**

### **AELODAETH**

#### **Ffigurau Aelodaeth**

Rhannwyd yr ystadegau aelodaeth ar y pryd ar y sgrin fel gallai'r holl aelodau eu hystyried.

Gofynnodd Sam Kurtz am gael gweld cyfanswm canrannol y cynnydd neu'r gostyngiad ar y sgrin yng nghyfarfodydd y dyfodol i gynnig mwy o eglurder.

Holodd Tania Hancock a ddylai'r Cyngor wneud mwy i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw aelodau, a chytunodd y Cyngor y dylid gofyn i'r Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata ystyried llunio cynllun gweithredu ar gyfer y misoedd a'r blynnyddoedd dilynol.

## **C/34/2021**

### **EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD**

Cadarnhawyd mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor oedd dydd Iau 18 Mawrth 2021, am 7.00yh, trwy gyfrwng Zoom.

## **C/35/2021**

### **UNRHYW FATERION ERAILL**

Ymunodd Ed Dungait â'r cyfarfod yn hwyr, a chyhoeddodd ei fwriadau i sefyll yn etholiad is-gadeirydd FfCCFFI a gofynnodd am gefnogaeth CFFI Cymru.

Unwaith yn rhagor, yn ei gyfarfod olaf o'r Cyngor, diolchwyd i Dewi Parry am ei gyfraniadau brwdfrydig dros y blynnyddoedd a dymunwyd yn dda iddo at y dyfodol.

Nid oedd unrhyw faterion eraill, felly diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniad, chyhoeddwyd fod y cyfarfod ar gau am 8.35yh.

**Llofnod:** \_\_\_\_\_

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_